
# NORMAN JENKINS

Mae Norman Jenkins wedi bod yn rhan hollbwysig o Glwb Tenis Bwrdd Cwm Rhondda ers dros bedwar degawd. Mae Norman wedi bod yn wirfoddolwr ym mhob ystyr o'r gair, mae wedi neilltuo oriau di-rif bob wythnos i hyfforddi, mentora a chefnogi chwaraewyr o bob oed a gallu, gan roi cyfle i filoedd o bobl ifanc roi cynnig ar denis bwrdd. Drwy ei arweinyddiaeth a'i ymroddiad, mae Norman wedi chwarae rhan sylfaenol wrth sefydlu clwb Cwm Rhondda fel y clwb tenis bwrdd mwyaf llwyddiannus yn hanes Cymru. Mae'r clwb wedi helpu i ddatblygu sgiliau pencampwyr Cymru a Phrydain, enillwyr medalau'r Gymanwlad, a chenedlaethau o chwaraewyr ymroddedig.

Dros y blynyddoedd, mae Norman wedi sicrhau bod y clwb yn parhau i fod yn groesawgar, yn gynhwysol, ac yn hygyrch. Mae hefyd wedi bod yn fentor allweddol i'w feibion, Ryan a Stephen, sydd wedi ennill medalau yng Ngemau'r Gymanwlad a hyfforddi ar lefel genedlaethol. Mae Norman yn parhau i arwain trwy esiampl yn rhan o'i rôl fel Prif Hyfforddwr. Dyma berson dihymongar ac anhunanol, sydd wrth galon y clwb yma.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAWRTH 2026